# Nivolumab ar gyfer trin melanoma (na ellir ei dynnu'n llwyr neu fetastatig) datblygedig

Chwefror 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Nivolumab (Opdivo) ar ei ben ei hun fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion â melanoma (na ellir ei dynnu'n llwyr neu fetastatig) datblygedig.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych felanoma datblygedig, a bod eich meddyg yn credu mai nivolumab yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai nivolumab fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau. Gan fod nivolumab ar gael yn y GIG drwy'r cynllun 'mynediad cynnar at feddyginiaethau', mae NHS England wedi nodi y bydd ar gael ar y GIG 30 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r canllawiau.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd nivolumab oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Math o ganser y croen yw melanoma. Ystyr melanoma datblygedig yw pan na ellir tynnu'r canser yn llwyr drwy lawdriniaeth neu pan fydd wedi gwasgaru i rannau eraill o'r corff (metastatig).

Mae nivolumab yn gyffur sy'n helpu system imiwnedd y corff i adnabod a dinistrio celloedd melanoma. Caiff ei roi drwy bigiad.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Melanoma UK, 0808 171 2455
  www.melanomauk.org.uk
- Skcin - Elusen Canser y Croen Karen Clifford, 0115 9819 116
  www.skcin.org
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
  www.macmillan.org.uk
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
  www.cancerresearchuk.org/about-cancer

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1823-2